CADW'R BUDD YN LLEOL
KEEPING THE BENEFIT LOCAL

# Camgymeriadau Cyffredin Mewn Tendrau a'r Cymorth Sydd ar Gael

www.gwynedd.llyw.cymru/caffael
www.gwynedd.llyw.cymru/procurement
#BusnesGwynedd | #GwyneddBusiness

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CADW'R BUDD YN LLEOL
KEEPING THE BENEFIT LOCAL

**Cynnwys**


**1.0 Cyflwyniad**

**2.0 Adnoddau ac Amser**

**3.0 Gosodiad y Ddogfen**

**4.0 Camsyniadau Cyffredin**

**5.0 Gosod Gwybodaeth mewn Cyd-destun**

**6.0 Darparu Tystiolaeth**

**7.0 Rheoli Contractau a'r Fethodoleg**

**8.0 Y Cymorth Sydd ar Gael**


---

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Wrth ddefnyddio adroddiad a luniwyd gan Wasanaeth Adolygu Tendrau Prifysgol Bangor, mae Cyngor Gwynedd wedi creu'r ddogfen arweiniol fer hon i dynnu sylw at y camgymeriadau a'r camsyniadau cyffredin sy'n peri i fusnesau/mentrau medrus golli allan ar gyfleoedd tendro. Ein bwriad yw rhoi diwedd ar y camgymeriadau hyn trwy wella'r ddealltwriaeth o brosesau tendro a'r gofynion perthnasol.

## 2.0 Adnoddau ac Amser

2.1 Yn aml, nid yw pobl yn rhoi digon o amser nac adnoddau wrth baratoi i gyflwyno ceisiadau am dendrau (yn enwedig yn ystod y cam PQQ) ac weithiau maent yn dirprwyo'r dasg i staff is nad oes ganddynt y wybodaeth na'r profiad i gynrychioli gallu'r darparwr / cyflenwr i gyflawni'r briff yn y modd gorau. Rhaid i staff uwch / mwy profiadol ddynodi'r adnoddau sydd eu hangen i sicrhau y cânt eu cynrychioli'n gywir.

2.2 Yn aml, ni roddir digon o ystyriaeth i'r pwysau a roddir ar adrannau/cwestiynau penodol. Yn sgil hynny ni roddir digon o amser, adnoddau na manylion i'r meysydd gofynnol.

## 3.0 Strwythur a Threfn

3.1 Mae diffyg strwythur a threfn yn nifer o'r ceisiadau tendr sy'n ei gwneud yn anodd i'r sawl sy'n eu gwerthuso ddod o hyd i'r wybodaeth bwysig. Dylech ystyried defnyddio:-

a) Is-benawdau'n rheolaidd i dargedu cwestiynau neu agweddau penodol yn y briff.

b) Templedi safonol i gyflwyno gwybodaeth debyg e.e. manylion staff, astudiaethau achos ac ati.

c) Rhifau i rifo paragraffau h.y. 1.1,1.2 a thudalennau cynnwys.

3.2 Ceir camddealltwriaeth yn aml o ran y gwahaniaeth rhwng y camau PQQ (Holiadur Cyn Cymhwyso) ac ITT (Gwahoddiad i Dendro) a hefyd o ran pa wybodaeth sydd ei hangen. O ran eglurder, mae angen i chi ddarparu:-

PQQ:- Manylion profiad a chymwysterau perthnasol i brofi'ch gallu.
ITT:- Manylion cyflawni'r contract h.y. y fethodoleg, y pris, y cyfnod amser ac ati.

## 4.0 Camsyniadau cyffredin:-

4.1 **Peidiwch** â chymryd yn ganiataol fod atebion/manylion a gyflwynwyd mewn adrannau blaenorol (yn y PQQ a'r ITT) neu wrth ateb cwestiynau blaenorol o fewn yr adrannau hynny yn cael eu hystyried eto wrth werthuso adrannau / cwestiynau eraill h.y. dylech dybio fod gwahanol bobl yn sgorio pob cwestiwn a felly dylech gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol er mwyn ateb bob cwestiwn/adran yn llawn, hyd yn oed os yw hynny'n golygu fod yn rhaid ailadrodd peth o'r wybodaeth.

4.2 **Peidiwch** â chymryd yn ganiataol y gall y sawl sy'n gwerthuso'ch cais ddefnyddio unrhyw wybodaeth bersonol sydd ganddo am eich sefydliad/cwmni wrth sgorio ceisiadau tendro. Yn ôl y gyfraith, ni chaiff y sawl sy'n gwerthuso ond sgorio'r wybodaeth sydd wedi'i chyflwyno yn y dogfennau tendro, ni chaiff ystyried perthnasau gwaith yn y gorffennol neu unrhyw wybodaeth sydd ganddo am y sefydliad.

4.3 **Peidiwch** â chymryd yn ganiataol y bydd yna gyfle i ddarparu gwybodaeth ychwanegol neu i drafod y cais ar lafar o fewn y broses gwerthuso contractau h.y. peidiwch â chynnwys datganiadau megis "hapus i drafod ymhellach" neu "gellir darparu gwybodaeth ychwanegol ar gais". Gallwch gyflwyno gwybodaeth ychwanegol os fydd hynny'n atgyfnerthu'ch bid ar ffurf atodiad ac ystyriwch estyn neu aralleirio rhai adrannau yr ydych yn teimlo sydd angen mwy o eglurder.

4.4 **Peidiwch** â chymryd yn ganiataol fod gan y sawl sy'n gwerthuso tendrau wybodaeth eang o'r sector/maes. Eglurwch pam y bydd cymwysterau penodol a phrofiad blaenorol yn fuddiol i'ch gallu i gyflawni gofynion tendro yn enwedig os ydych yn darparu manylion sy'n mynd y tu hwnt i ofynion y briff.

4.5 **Peidiwch** â dehongli cwestiynau'n llythrennol h.y. ystyriwch pa wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol i'r sawl sy'n gwerthuso. Un enghraifft o hyn yw 'rhowch fanylion eich sail gyflenwi'. Mae angen i'r ymateb i'r cwestiwn hwn fod yn fwy na dim ond rhestr o'ch cyflenwyr, ystyriwch sut a pham y detholwyd y cyflenwyr hyn, sut y byddech yn rheoli ac yn monitro'r cyflenwyr hyn ac ati.

## 5.0 Tystiolaeth

5.1 Yn aml mae'r dystiolaeth a ddarperir i gefnogi datganiadau ar brofiad/gallu darparwyr/cyflenwyr i ddarparu briff y contract yn brin o fanylion o ran y dyddiad y cynhaliwyd gwaith blaenorol, hyd a gwerth contractau a manylion cleientiaid. Dylai tendrau hefyd ystyried cynnwys tystlythyrau neu sgoriau cleientiaid. Yn aml, dim ond disgrifiad o'r gwaith a geir sydd ddim yn profi'r gallu i gyflawni contractau ar y raddfa ofynnol nac ansawdd y gwaith a gyflawnwyd yn flaenorol.

## 6.0 Gwybodaeth am y Tîm

6.1 Roedd prinder gwybodaeth yn nifer o'r ceisiadau ar:-

a) Rôl a chyfrifoldebau unigolion a'r strwythur rheoli a defnyddiwyd (pwy sy'n gwneud beth a pha bryd). Mae angen i'r wybodaeth roi'r hyder i'r sawl sy'n gwerthuso y bydd unigolion sydd â'r sgiliau a'r profiad gofynnol yn cael eu dynodi i'r tasgau priodol, gyda'r adnoddau a'r amser sydd eu hangen i gyflawni gofynion y briff.

b) Eglurder/manylion y profiad a gafodd aelodau tîm wrth weithio ar gontract blaenorol a swyddi blaenorol os yw hynny o fudd i'r cais.

6.2 Ceir un gwall cyffredin pan fo ceisiadau'n cynnwys CVs generig gyda gwybodaeth sy'n amherthnasol i'r briff sy'n adlewyrchu'n wael ar y sefydliad tendro. Bydd gosod gwybodaeth mewn cyd-destun fel mai dim ond y sgiliau a'r profiad perthnasol sy'n cael eu hamlygu yn ei gwneud yn haws i'r sawl sy'n gwerthuso adnabod gwybodaeth allweddol sydd felly hefyd yn adlewyrchu faint mae'r ymgeisydd yn ei ddeall o'r briff.

## 7.0 Rheoli Contractau a'r Fethodoleg

7.1 Mae manylu ar y fethodoleg a gaiff ei defnyddio i gyflawni briff y contract yn faes allweddol i unrhyw gais tendro. Fodd bynnag, yn aml ni cheir digon o wybodaeth am yr hyn a ganlyn:-

i. Enghreifftiau o ble mae'r fethodoleg benodol honno wedi bod yn llwyddiant.

ii. Manylion y gwersi a ddysgwyd o gontractau blaenorol.

iii. Manylion ar brotocolau a gweithdrefnau.

iv. Manylion ar ba offer a chyfarpar perthnasol fydd yn cael ei ddefnyddio.

7.2 Maes arall lle mae'r manylion gofynnol yn aml yn brin yw sut fydd y contract yn cael ei reoli unwaith iddo gael ei sefydlu. Mae prinder manylion am hyn yn rhoi'r argraff na fydd yr ymgeisydd yn medru rheoli'n ddigonol wrth gyflawni'r contract. Yn aml, ni cheir digon o fanylion ar:-

i. Brofiad, arbenigedd a chymhwysedd rheolwyr prosiect i ddarparu'r briff i'r gost, amser a'r ansawdd gofynnol.

ii. Cymwysterau rheoli prosiect y staff.

iii. Y defnydd o declynnau rheoli prosiect megis Cynlluniau Cyfathrebu, adroddiadau crynhoi, Dangosyddion Perfformiad Allweddol, prosesau adolygu prosiect ac ati.

iv. Llinellau amser manwl:- ystyriwch ddefnyddio teclynnau megis Siartiau Gantt.

v. Rheoli risg:- ystyriwch ddefnyddio logiau risg i adnabod a gwerthuso'r effaith yn erbyn tebygolrwydd pob risg yn ogystal â mesurau lleddfu a pherchnogi risg (dangoswch agwedd ragweithiol at reoli risg).

vi. Prosesau rheoli ansawdd: - gellir ennill marciau hawdd drwy gynnwys Polisi / Cynllun Ansawdd, nodwch fanylion sut byddwch yn sicrhau ansawdd a sut caiff hyn ei ymgorffori wrth gyflawni'r tendr yn hytrach nag fel mesur adweithiol i gywiro materion wrth iddynt godi.

vii. Rheoli isgontractwyr ac ansawdd eu gwaith.

## 8.0 Y Cymorth Sydd ar Gael

### 8.1 Busnes Cymru

a) Mae Busnes Cymru yn darparu amrywiaeth o gefnogaeth ac arweiniad i helpu busnesau newydd a busnesau eraill i fod yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys:

i. cyngor ar dendro'n llwyddiannus am gontractau'r llywodraeth

  - gweithdai 'sut i dendro', digwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr'
  - e-gaffael
  - bidio cydweithredol a ffurfio consortia
  - gwybodaeth ar gyfleoedd tendro posib

ii. cydraddoldeb a chyngor AD

iii. rheoli amgylcheddol a chyngor ar wastraff

iv. cefnogi masnach ryngwladol

v. mentora busnes – cefnogaeth a chyngor mwy hirdymor gan bobl fusnes brofiadol

vi. cefnogaeth i gynnal eich busnes ar-lein

vii. cyngor busnes cyffredinol

viii. gweithdai ychwanegol ar amrediad eang o bynciau yn cynnwys mynediad at gyllid busnes, masnach ryngwladol, recriwtio staff ac ati.

b) Mae'r gefnogaeth hon yn rhad ac am ddim i fentrau bach neu ganolig eu maint (cyflogi hyd at 250) yng Nghymru. Cewch wybod mwy am y gefnogaeth sydd ar gael a'r digwyddiadau sydd ar y gweill ac ati trwy fynd i business.wales.gov.uk. Cysylltwch â:

- 01745 585 025

## 8.2 Dyfodol Adeiladu Cymru

Mae'r rhaglen hon yn cynnig cefnogaeth am ddim yn nifer o'r un meysydd â Busnes Cymru drwy gynnal gweithdai a chefnogaeth un i un. Y prif wahaniaeth yw'r canllawiau adeiladwaith ychwanegol mewn meysydd megis:-

i. BIM (*Building Information Modelling*),
ii. diweddariadau deddfwriaethol
iii. Archwiliad Iechyd Busnes.
iv. Rheoli Busnes ac Ansawdd
v. Strategaeth Fusnes
vi. Achrediadau megis ISO's a mwy

Gallwch ddarganfod mwy drwy ymweld a:- https://businesswales.gov.wales/constructionfutureswales/cy neu cysylltwch a:-

- *Dafydd Hughes (Pennaeth Adeiladu)*
- *Ffôn: - Llinell y swyddfa: 0300 625 398, Symudol: 07966 893 023*
- *e-bost:- dafydd.hughes@wales.gsi.gov.uk*

## 8.3 Cyngor Gwynedd a Rhwydweithiau Lleol

a) Er mwyn cefnogi darparwyr/cyflenwyr posib i adnabod, paratoi, defnyddio a chyflawni gwasanaethau o safon uchel i'r awdurdod lleol, mae adran gaffael Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi dogfennau arweiniol a gwybodaeth ddefnyddiol ar wefan yr awdurdod sy'n cynnwys:-

i. Cyfleoedd Tendro Newydd, a Rhestr o'r Contractau Cyfredol
ii. Telerau ac Amodau Contract Safonol
iii. Arweiniad ar "Weithio gyda Gwynedd" a'r Broses Dendro

Am fanylion pellach ewch i www.gwynedd.llyw.cymru/caffael , galwch 01286 679 213 neu anfonwch e-bost i caffael@gwynedd.llyw.cymru.

b) Mae Tîm Cefnogi Busnes yr Adran Economi a Chymuned yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad busnes yn ogystal â chefnogaeth ariannol bosib trwy grantiau a benthyciadau i:-

- Gynorthwyo busnesau lleol i ehangu a thyfu
- Ennill achrediadau ychwanegol megis ISOs
- Annog pobl ifanc i fentro i gyflogaeth neu hunangyflogaeth.

c) Mae'r rhwydweithiau isod yn gyfle i fentrau / busnesau lleol rannu gwybodaeth ar gefnogaeth fusnes/ariannol, cyfleoedd hyfforddi a thendro ac ati (cewch gofrestru am ddim):-

- Partneriaeth Economaidd Gwynedd www.gwyneddeconomy.info
- Rhwydwaith Busnes Gwynedd www.gwyneddbusnes.net

8.4 **GwerthwchiGymru (S2W)**

a) Mae S2W yn declyn hysbysebu a ddefnyddir i hysbysebu cyfleoedd busnes o fewn yr awdurdod lleol. Wrth gofrestru eich busnes byddwch yn derbyn:-

  **i.** diweddariad ar e-bost o gyfleoedd busnes penodol
  **ii.** gwybodaeth am ddigwyddiadau, hyfforddiant / gweithdai / deddfwriaethau ac ati.
  **iii.** y gallu i chwilio am gyflenwyr a phartneriaid ar gyfer cyflwyno bidiau ar y cyd.

b) I weld fideo byr a chael mynediad i'r wefan, defnyddiwch y linc isod:- http://www.sell2wales.gov.uk/video/Video_main.aspx

8.5 **Y Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB)**

a) Drwy ymaelodi â'r Ffederasiwn Busnesau Bach cewch gefnogaeth ar amrywiol feysydd gan gynnwys y gyfraith, deddfwriaeth, busnes, arian a iechyd. Am fwy o wybodaeth am y gefnogaeth hon, ffioedd ymaelodi ac ati ewch i http://www.fsb.org.uk/wales. I gysylltu â'ch swyddog/adain leol:-

- *Ian Nellist (Cadeirydd Adain Gwynedd)*
- *Ffôn:- Swyddfa 01286 673 684, Symudol:- 07775 598 957*
- *e-bost:- ianandrew@inellist.freeserve.co.uk*